

## THOMAS (TEULU), Wenvoe, Sir Forgannwg.

Yr oedd y teulu hwn, a ddaeth yn flaenllaw yn y 17eg ganrif, yn disgyn o deulu o'r enw Harpway yn Swydd Henffordd. Yn ôl [G. T. Clark](#) (*Limbus Patrum*, 445) priododd JEVAN HARPWAY, neu ap 'Harpway,' Tresiment, Swydd Henffordd, CATHERINE, merch ac aeres Thomas ap Thomas, castell Wenvoe, Sir Forgannwg. Yr oedd eu gor- yr hwy,

EDMUND THOMAS (1633 - 1677),

yn aelod seneddol Morgannwg, 1654-6, ac yn 'Nh Arglwyddi' y Diffynnwr, 1658. Prynodd ef lawer o dir oedd yn siroedd Morgannwg a Mynwy. Bu iddo fab o'i ail wraig,

EDMUND THOMAS (1674 - 1693), a fu farw'n ddibriad ac o dan oed. Ymddengys mai aeres Wenvoe, maes o law, oedd

ELIZABETH,

merch y William Thomas (bu farw yn Rhydychen, 1636) a briodasai Jane, merch [Syr John Stradling, barwnig](#), castell S. Dunwyd, Sir Forgannwg. Yr oedd yr Elizabeth hon, a gafodd Wenvoe a Rhiwperra, yn weddw Edmund Ludlow, un o'r g yr a roes Siarl I i farwolaeth; wedi marw Ludlow daeth yn wraig i JOHN THOMAS, a oedd, efallai, yn gefnder iddi ([Clark](#), op. cit.); ganwyd ef yn 1664; crewyd ef yn farwnig ym mis Rhagfyr 1694, gyda hawl i'w frodyr, EDMUND a William, i'w ddilyn yn y farwnigiaeth. Bu farw ar 17 Ionawr 1704 yn ddiblant.

Y 3ydd barwnig oedd Syr EDMUND THOMAS (1712 - 1767); dilynodd ef yn 1723 ei dad, Edmund Thomas, yr ail farwnig (a brawd Syr John Thomas, y barwnig cyntaf). Priododd y 3ydd barwnig, Mehefin 1740, ag Abigail, merch Syr Thomas Webster, Battle Abbey. Bu'n aelod seneddol dros Chippenham, 1741-55, a thros sir Forgannwg o 1761 hyd ei farwolaeth ar 10 Hydref 1767. Yr oedd Syr Edmund yn gyfeillgar â Frederick, tywysog Cymru, a daliai y swydd o was yr ystafell wely iddo o 1742 hyd y bu'r tywysog farw yn 1751. Dewiswyd ef gan weddw Frederick, ym mis Hydref 1757, yn gyd-drysorydd ei th hi. O 1761 yr oedd yn arglwydd-gomisiynwr y Bwrdd Masnach, eithr rhoddwyd iddo, yn 1763, yn gyfnewid am y swydd hon, swydd archwiliwr cyffredinol y coed a'r fforestydd, a ddaliodd hyd adeg ei farw. Daeth yn lifftenant-cyrnol milisia Morgannwg yn 1764. Gwerthwyd Wenvoe ganddo yn 1765 ac felly torrwyd cyswllt y teulu â Sir Forgannwg; gwerthasid Rhiwperra lawer blwyddyn cyn hynny.

Mab iau oedd FREDERICK JENNINGS THOMAS (1786 - 1855), is-lyngesydd, i Syr JOHN THOMAS (1749 - 1828), y 5ed barwnig; ganwyd ef 19 Ebrill 1786. Cychwynnodd ei yrfa yn y llynges ym mis Mawrth 1759 ar y *Boston*. Yn 1803 yr oedd ar y *Prince of Wales*, llong-faner Syr Robert Calder, a bu ym mrwydr 22 Gorffennaf 1805. Ar 19 Medi yr un flwyddyn apwyntiwyd ef yn lifftenant-gweithredol ar y *Spartiate* ac yr oedd ym mrwydr Trafalgar. Cadarnhawyd ei gomisiwn ar 14 Chwefror 1806, ac o hynny hyd 1814 parhaodd yn y *Spartiate* a llongau eraill yn y Môr Canoldir, gan ddyfod yn y diwedd yn gapten y *San Juan*, llong-faner yr is-lyngesydd Linzee yn Gibraltar. Dychwelodd adref yn 1814 ond ni bu iddo swydd weithredol wedi hynny. Priododd 7 Awst 1816, Susannah, merch Arthur Atherley; bu iddynt dri mab a merch. Ymddeolodd ar 1 Hydref 1846 gyda'r gradd o is-lyngesydd a bu farw ar 19 Rhagfyr 1855.

Yr oedd CHARLES NASSAU THOMAS, nai Syr Edmund Thomas, mor gyfeillgar â George, tywysog Cymru (George IV wedi hynny) ag a fuasai Syr Edmund â Frederick, tywysog Cymru. Yr oedd yn gyronol yn y fyddin, ond nid oes gofnodion am ei yrfa fel milwr. Yn 1795 daeth yn is-siambrlen teulu i'r tywysog; yn 1812, wedi i George ddyfod yn 'Prince Regent,' dewiswyd ef yn was cyntaf yr ystafell wely ac yn feistr y dilladau, swydd a ddaliodd hyd y daeth y tywysog yn frenin yn 1820.

## Awdur

Henry John Randall, (1877 - 1964)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography* (am hanes Frederick Jennings Thomas)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804785](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

